YSGOL ABERCONWY

# Gweithgareddau a Digwyddiadau



YSBRYDOLI | CEFNOGI | LLWYDDO

YSGOL
ABERCONWY



Yn Ysgol Aberconwy rydym yn ceisio cynnig ystod eang o gyfleoedd i fyfyrwyr y tu hwnt i'r ystafell ddosbarth, i ddatblygu sgiliau ac ehangu eu persbectif.

Mae'r llyfryn hwn yn cynnig cipolwg ar rai o'r amrywiaeth eang o deithiau a gweithgareddau rydym yn eu trefnu yn ystod y flwyddyn – gobeithio y byddwch yn teimlo ei fod yn ddiddorol ac yn ddefnyddiol.

# Medi

## Gweithgareddau a Digwyddiadau



### Taith Glan Llyn

Mae taith flynyddol Glan Llyn ym mis Medi yn caniatáu i'n myfyrwyr Blwyddyn 7 ddod i adnabod ei gilydd, datblygu fel tîm a datblygu eu sgiliau iaith Gymraeg. Mae myfyrwyr yn treulio 2 noson yn y ganolfan ac yn cymryd rhan mewn amrywiaeth eang o chwaraeon dwr.















# Medi

## Gweithgareddau a Digwyddiadau

### Ffotograffau Ysgol

Tynnir ffotograffau dosbarth a myfyrwyr unigol o fewn pythefnos gyntaf y tymor.



### Etholiadau'r Cyngor Ysgol

Cynhelir etholiadau ar gyfer y Cyngor Ysgol newydd ym mis Medi.

### Ein Miliwnydd Ddarllenwyr

Yn Ysgol Aberconwy, mae pob myfyriwr ysgol is yn treulio 20 munud y dydd yn darllen fel rhan o'r Rhaglen Darllenwyr Carlam. Rydym yn dathlu nifer y geiriau y mae ein holl fyfyrwyr yn eu darllen yng nghoridor y Llyfrgell ac mae ein Miliwnydd ddarllenwyr yn derbyn tystysgrifau.



# Hydref

## Gweithgareddau a Digwyddiadau

### Diwrnod Ailgychwyn y Galon

Mae'r ysgol gyfan yn cymryd rhan mewn hyfforddiant CPR.

Mae ein holl fyfyrwyr blwyddyn 7 yn dysgu sut i roi CPR yn ystod gweithdy gyda'u grwp dosbarth. Mae pawb arall yn cael y cyfle i fynychu sesiwn gloywi amser cinio.

Mae pawb ohonom wedi derbyn hyfforddiant CPR!







### Hyfforddiant Dug Caeredin

Mae myfyrwyr Blwyddyn 9, 10, 11, 12 a 13 yn cymryd rhan mewn alldeithiau ar gyfer gwobr Dug Caeredin.



YSGOL ABERCONWY

# Hydref

## Gweithgareddau a Digwyddiadau










### Noson Agored Ysgol Aberconwy

Rydym yn agor ein drysau i groesawu llawer o wynebau newydd yn ein noson agored flynyddol.

Mae teuluoedd o bob rhan o'r sir yn mwynhau gweithgareddau cyffrous a gafaelgar o amgylch yr ysgol ac yn cwrdd ag aelodau staff a myfyrwyr.








YSGOL ABERCONWY

# Hydref

## Gweithgareddau a Digwyddiadau



### Ysgol Goedwig

Mae gennym Ysgol Goedwig sefydledig. Mae ein myfyrwyr yn dysgu am natur a'r amgylchedd lleol ac yn datblygu eu dealltwriaeth ohonynt.









YSGOL ABERCONWY

# Hydref

## Gweithgareddau a Digwyddiadau

### Diwrnod S’mae/Shwmae,

I ddathlu diwrnod s’mae/shwmae, mae myfyrwyr yn mwynhau amrywiaeth o weithgareddau ar thema'r iaith Gymraeg: o ymarfer clymau tafod, gwrando ar gerddoriaeth Gymraeg yn y disgo distaw a chwrdd ag enwogion Cymru.




Mae Alistair James, cyflwynydd Capital FM (a chyn-ddisgybl Ysgol Aberconwy) yn creu rhaglen radio Gymraeg gyda dosbarth iaith gyntaf blwyddyn 7 yn ystod ei ymweliad.







### Arddangosfa Dysgu Seiliedig ar Broject

Mae rhieni Blwyddyn 7 yn dod i'r ysgol i weld y gwaith project a chwrdd â'r athrawo yn anffurfiol.





YSGOL ABERCONWY

# Tachwedd

## Gweithgareddau a Digwyddiadau

### Diwrnod Gwyddoniaeth ar gyfer Iechyd Blwyddyn 9

Mae ein myfyrwyr Blwyddyn 9 yn mwynhau sesiynau am fanteision bwyta'n iach, peidio ag ysmygu, defnyddio cyffuriau neu yfed alcohol a hefyd yn dysgu am iechyd meddwl a hylendid.



### Project Ffilm Casglu'r Straeon

Mae myfyrwyr Ysgol Aberconwy yn gweithio ochr yn ochr â Ffilmiau Cymunedol Davies i ffilmio yn y gymuned, gan gofnodi pobl yn adrodd straeon am eu bywydau yng Nghonwy.

### Sioe Gerdd yr Ysgol

Bob mis Tachwedd mae'r ysgol yn cynhyrchu Sioe Gerdd. Yn gyffredinol, rydym yn cynnwys plant o ysgolion cynradd ein dalgylch a myfyrwyr Aberconwy o bob blwyddyn. Rydym yn rhoi pwyslais mawr ar ddatblygu'r ystod lawn o sgiliau cynhyrchu, o farchnata i goleuo a sain, dylunio set ac wrth gwrs actio, dawnsio a chanu. Mae ein cynyrchiadau diweddar wedi cynnwys We Will Rock You, Billy Eliot and Hairspray.



# Tachwedd

## Gweithgareddau a Digwyddiadau

### Diwrnod Plant mewn Angen

Mae bwrlwm o gyffro o amgylch yr ysgol gyfan yn ystod yr wythnos sy'n arwain i fyny at Blant mewn Angen.  Mae'r myfyrwyr a'r staff yn trefnu ac yn cymryd rhan mewn amrywiaeth o weithgareddau codi arian, o wisgo i fyny i werthu cacennau. Mae grwp o athrawon hyd yn oed yn cymryd rhan yn hanner marathon Conwy i helpu i godi arian.
Mae Ysgol Aberconwy yn codi miloedd o bunnoedd i Blant mewn Angen y BBC bob blwyddyn!







### Gardd yr Ysgol

Cyn i dymor y Gaeaf ddod, mae'r myfyrwyr a Mr Misiak yn cynaeafu'r llysiau olaf, ac yn paratoi a thacluso'r ardd yn barod at y Gwanwyn.

### Myfyrwyr yn Ymuno a Chynllun Mentora Prifysgol Cymru

Myfyrwyr Ieithoedd Tramor Modern yn cymryd rhan mewn project gyda Phrifysgol Cymru I godi dyheadau gyrfa.



YSGOL ABERCONWY

# Rhagfyr

## Gweithgareddau a Digwyddiadau





### Dod yn Gyntaf yng Nghystadleuaeth Ysgrifennu Sgript Gwobr Iris

Myfyrwyr yn treulio dau ddiwrnod yn gweithio gyda chriw ffilm proffesiynol, ar ol dod yn gyntaf yng nghystadleuaeth ysgrifennu sgript Gwobr Iris I ysgolion ledled Cymru..



### Diwrnod Plannu Coeden

Mae'r Clwb Garddio a'r Ganolfan Gynhwysiant yn plannu coed cyll a roddwyd gan Ymddiriedolaeth y Coetir ar dir yr ysgol.



### Adran ITM yn Ymweld a Marchnad Nadolig Almaenig

Myfyrwyr iaith yn ymweld a Cologne am benwythnos ac yn mwynhau'r diwylliant, bwyd a'r awyrgylch mewn marchnad Nadolig Almaenig.





YSGOL ABERCONWY

# Rhagfyr

## Gweithgareddau a Digwyddiadau





### Diwrnod Siwmper Nadolig

Rydym yn codi arian ar gyfer Achub y Plant ac yn casglu bagiau o roddion ar gyfer Banc Bwyd Conwy gyda'n diwrnod gwisgo siwmper Nadolig.



**Daeth 7 myfyriwr Blwyddyn 7 yn Filiwnydd Ddarllenwyr** - darllenodd pob un dros 1,000,000 o eiriau yn ystod y tymor!



### Daearyddwyr Blwyddyn 9 yn Creu Ffrwydradau

Ar ol gwneud llosgfynyddoedd ffrwydrol, mae'r myfyrwyr yn adrodd ac yn ffilmio'r ffrwydradau i'w defnyddio yn eu haseiniadau llafar, yn seiliedig ar ffrwydrad Mynydd St Helens.

### Gweini Cinio Nadolig Ysgol…

Cinio Nadolig ysgol yn cael ei weini gan staff Sodexo!





YSGOL ABERCONWY

# Rhagfyr

## Gweithgareddau a Digwyddiadau







### Mynd a'r Celfyddydau Perfformio i'r Gymuned Leol...

Myfyrwyr yn lledaenu hwyl y Nadolig trwy ganu'n uchel i bawb gael clywed! Yn dilyn Gwasanaeth Carolau yn Eglwys y Santes Fair rydym yn ymweld a chartrefi nyrsio a sefydliadau lleol i berfformio.

### Ein Taith Casglu Straeon yn Parhau...

Mae'r ffilm fer a gynhyrchodd myfyrwyr gyda Ffilmiau Cymunedol Davies yn cael ei dangos am y tro cyntaf yng Nghlwb Yr Efail yng Nghonwy.














# Ionawr

## Gweithgareddau a Digwyddiadau

### Gweithdy Iris Myfyrwyr

Myfyrwyr a staff Ysgol Aberconwy yn croesawu criw ffilmio Iris Outreach yn ol i gynnal gweithdy sy'n rhoi'r cyfle i fyfyrwyr weithio ochr yn ochr a rhwydweithio gyda gweithwyr proffesiynol y diwydiant o fyd teledu a ffilm.






### Ymweliad gan y Canwr a'r Cyfansoddwr Caneuon, Livvy K

Mae Livvy, eiriolwr iechyd meddwl, yn ymweld ag Ysgol Aberconwy. Mae'n perfformio caneuon, yn gwneud sesiwn C&A ac yn llofnodi.

### Ffilm myfyrwyr "Our Souls" yn cael ei Dangos am y tro cyntaf ac yn Ennill Gwobr

Mae ein gwneuthurwyr ffilm, ein myfyrwyr, yn ennill Gwobr Ffilm Fer Addysg gyda'u ffilm  Our Souls yng Ngwyl Ffilmiau Iris. Dyma farn y beirniaid...

“Roedd Our Souls yn waith ffilm deniadol, argyhoeddiadol a soffistigedig. Mae ysgolion yn dal I fod yn lle lle gall plant LHDT+ ddioddef, ac mae hyn yn dangos yn glir yr effaith bositif y gall siarad amdano ei chael. Ffilm deimladwy a phwysig.”



YSGOL ABERCONWY

# Chwefror

## Gweithgareddau a Digwyddiadau

### Gweithdy Iaith y Cenhedloedd Unedig


Mae Tracey Hayes, sy'n gweithio i'r Cenhedloedd Unedig yn y Swistir, yn hedfan i'r DU i siarad a myfyrwyr Bwyddyn 9-12 am werth cael sgiliau iaith dramor a'r angen am ail iaith yn yr Economi Fyd-eang.













### Dathlu'r Flwyddyn Newydd Tsieineaidd yn yr Ysgol!

Mae myfyrwyr ym mlwyddyn 7, 8 a 9 yn mwynhau cymysgedd o wersi i ddathlu'r wyl a dysgu mwy am ddiwylliant a thraddodiadau Tsieina: o wersi coginio Tsieineaidd i ddosbarthiadau torri papur ac o Tai Chi i galigraffeg Dsieineaidd.



### Diwrnod Cerddoriaeth Gymraeg

Mae myfyrwyr Blwyddyn 7 yn dathlu Diwrnod Cerddoriaeth Iaith Gymraeg trwy gyfansoddi a pherfformio cerddoriaeth – ar yr achlysur hwn, gyda Iwcalili!

YSGOL ABERCONWY

# Chwefror

## Gweithgareddau a Digwyddiadau








### Myfyrwyr yn Cystadlu yn CRE8

Myfyrwyr Bl9 yn cymryd rhan yn Nigwyddiad CRE8 Gogledd Orllewin Cymru, gan ennill y wobr Gwaith Tim Gorau.

### Llwyddiant mewn Dawnsio gyda'r Urdd

Mae myfyrwyr Ysgol Aberconwy yn ennill 27 o fedalau!








# Chwefror

## Gweithgareddau a Digwyddiadau









### Wythnos Genedlaethol Adrodd Stori

Mae disgyblion Blwyddyn 7 yn ymweld a chartref gofal Queen Elizabeth Court i ddarllen i breswylwyr fel rhan o wythnos Genedlaethol Adrodd Stori. Adroddwyd straeon wrthynt am y rhyfel gan breswylydd a'i wraig sydd wedi bod yn briod ers 70 mlynedd.

### Project Ffenics

Mae 14 myfyriwr yn cymryd rhan mewn wythnos lawn o hyfforddiant gyda Gwasanaeth Tan ac Achub Gogledd Cymru yng Ngorsaf Dan Llanfairfechan. Maent yn dysgu am ddiogelwch tan, delio a phwysau gan gymheiriaid a gwneud dewisiadau da. Datblygodd yr holl fyfyrwyr a gymerodd ran sgiliau gwaith tim, gan wynebu heriau drwy'r wythnos a'u profodd yn gorfforol ac yn emosiynol. Maent yn dysgu eu bod y gallant ymdopi dan bwysau a bod cefnogaeth eu cymheiriaid yn hanfodol.







YSGOL ABERCONWY

# Chwefror

## Gweithgareddau a Digwyddiadau

### Profiad Gwaith Airbus

Myfyrwyr yn mwynhau wythnos o brofiad gwaith yn Airbus.



### Nosweithiau Opsiynau TGAU Blwyddyn 11 a Blwyddyn 9

Myfyrwyr a rhieni yn ymweld a'r ysgol i drafod opsiynau Chweched Dosbarth a TGAU.



### Rhagbrofion Traws Gwlad

Naw myfyriwr yn cystadlu ym Mhencampwriaeth Traws Gwlad Eryri: mae tri yn mynd trwodd i'r rownd genedlaethol.




### Gymnasteg yr Urdd

Myfyrwyr Aberconwy yn cystadlu yn Aberystwyth.

YSGOL ABERCONWY

# Mawrth

## Gweithgareddau a Digwyddiadau

### Llwyddiant Coginio

Mae Amelia yn dod yn drydydd yng Nghystadleuaeth Cogurdd yng Ngholeg Llandrillo. Gweithiodd yn hynod o galed i gyflawni hyn, gan wneud dwy saig mewn awr a hanner.



### Dathliadau Diwrnod y Llyfr!

Mae staff a myfyrwyr yn gwisgo fel eu hoff gymeriadau i godi arian at elusen.



### Gweithdai Criw Craff

Mae ein myfyrwyr blwyddyn 7 yn cymryd rhan mewn cyfres o weithdai rhyngweithiol Criw Craff.  Daw siaradwyr o Heddlu Trafnidiaeth Prydain, Diogelwch ar y Ffordd, RLNI, St Ioan, Ymddiriedolaeth Cwn, Asiantaeth Safonau Bwyd a'r Gwasanaeth Tan I ymgysylltu a myfyrwyr a thrafod amrywiaeth eang o faterion diogelwch personol.



# Mawrth

## Gweithgareddau a Digwyddiadau



### Eisteddfod Ysgol Aberconwy

Bob blwyddyn rydym yn cynnal Eisteddfod i fyfyrwyr ym mlwyddyn 7 & 8 er mwyn arddangos eu doniau ar draws ystod eang o bynciau. Yn 2019 ein henillwyr oedd:

Enillydd Cadair Iaith Gyntaf Chair
Lucian
Enillydd y Goron (am waith mewn Saesneg)
Jodie
Enillydd Tlws y Dysgwyr
Elin







### Speakers for Schools

Rydym yn croesawu Cyfarwyddwr Gweithredol The Edge Picture Company, Pete Stevenson, fel rhan o'r rhaglen Speakers for Schools. Mae'n rhoi cyflwyniad ysbrydoledig am weithio yn y diwydiant ffilm, ac yna weithdy bach gyda'n myfyrwyr Ffilm a'r Cyfryngau 6ed Dosbarth, lle cawsant gyfle i weithio gydag ef ar friff a chynnig ar gyfer cleient.

### Croesawu Myfyrwyr o'r Almaen

Rydym yn croesawu myfyrwyr o Friedrich Ebert Gymnasium School yn Bonn, Yr Almaen, a oedd yn ymweld â Chymru am y tro cyntaf.



# Mawrth

## Gweithgareddau a Digwyddiadau

### Dathliadau Dydd Gwyl Dewi

Mae'r myfyrwyr yn gorymdeithio o Ysgol Aberconwy i Eglwys y Santes Fair, i gymryd rhan yn y dathliadau sy'n digwydd yn yr eglwys. Mae ein disgyblion yn ymuno â myfyrwyr o ysgolion eraill i adrodd cerddi a chanu caneuon. Yn yr ysgol mae ein myfyrwyr yn cymryd rhan mewn cwisiau ac mae siaradwyr gwadd yn siarad â'r myfyrwyr am bwysigrwydd yr iaith Gymraeg.






### Dadl Fawr yr RSPB

Mae Ysgol Aberconwy yn dod yn ail yn Nadl Fawr yr RSPB.

# Mawrth


## Gweithgareddau a Digwyddiadau











### Taith Sgïo

Mae'r myfyrwyr yn datblygu eu sgiliau ac yn dysgu i sgïo ar ystod o lethrau ar ein taith sgïo flynyddol. Mae sgïwyr gyda sgiliau uwch yn dod o  hyd i lawer i'w herio, hyd yn oed ychydig o neidiau a darnau oddi ar y piste.

Erbyn diwrnod pedwar mae mwyafrif y myfyrwyr yn gallu sgïo o'r pwynt uchaf. Cyflawniad gwych i fyfyrwyr nad oedd ganddynt unrhyw brofiad sgïo dridiau ynghynt.





# Ebrill

## Gweithgareddau a Digwyddiadau

### Taith Dramor!

Mae'r myfyrwyr yn mwynhau taith pythefnos i Tsieina i barhau â'u hastudiaethau mewn Mandarin, gan aros ym Mhrifysgol Xiamen gyda disgyblion o Ysgol Uwchradd Argoed ac Ysgol Gyfun Cwm Rhymni.

Yn ogystal â chael gwersi mewn Mandarin, maen nhw hefyd yn cael y pleser o weithgareddau diwylliannol fel cerfio pren traddodiadol, paentio a chrefft ymladd.

Mae'r Ganolfan Confucius yn y Brifysgol yn darparu cyfleoedd i'r myfyrwyr ymarfer eu Mandarin y tu allan i'r ystafell ddosbarth, gydag ymweliadau â chwmni casglu a blasu te lleol, temlau lleol ac ynys brydferth oddi ar arfordir Xiamen o'r enw Gulang Yu.

Cyn gadael y Brifysgol i dreulio ychydig ddyddiau fel twristiaid yn Shanghai, mae'r myfyrwyr yn sefyll eu harholiadau terfynol – mae pawb yn pasio!










# Mai

## Gweithgareddau a Digwyddiadau



## Athrawon yn Ymweld o Ysgol yng Ngwlad yr Iâ

Rydym yn croesawu athrawon sy'n ymweld â'r DU o Brekkuskóli, Gwlad yr Iâ! Yn ystod eu cyfnod gyda ni maen nhw'n cyfarfod â myfyrwyr ac yn cymryd rhan mewn gweithgareddau dosbarth hefyd!

## Tri Myfyriwr yn Derbyn Gwobr Fawreddog Urdd Lifrai Cymru

Yn dilyn proses ymgeisio anodd a thrylwyr, mae tri myfyriwr o Ysgol Aberconwy yn cael eu dewis i dderbyn Gwobr Ysgolion Cymru fawreddog Cwmni Anrhydeddus Lifrai Cymru. Ddydd Gwener Erbrill 12fed, mae Jean Bryson yn cyflwyno eu gwobrau i Nina (Blwyddyn 9), Edward  (Blwyddyn 10) a Geneva (Blwyddyn 10).  Maen nhw'n derbyn tystystgrifau wedi'u fframio a gwobr ariannol i gefnogi eu hanghenion addysgol parhaus.






## Diwrnod Am Dro!

Trwy gydol mis Ebrill a mis Mai bydd myfyrwyr yn gweithio ochr yn ochr â disgyblion o Borth Y Felin i greu nifer o brojectau celf, gan arwain at arddangosfa gelf gyffrous a rhyngweithiol yn Eglwys y Santes Fair ym mis Mai 2019!





# Mai

## Gweithgareddau a Digwyddiadau

### Ni yw'r Ysgol Uwchradd Gyntaf yng Nghymru i Gyflawni'r Wobr Safon Iechyd Gorfforaethol!

Mae aseswyr o Dîm Cymru Iach ar Waith Llywodraeth Cynulliad Cymru yn ymweld ag Ysgol Aberconwy i gynnal arolygiad mewn dau faes allweddol: cefnogaeth sefydliadol a materion iechyd penodol. Yn dilyn yr arolygiad, dyfernir Gwobr Arian y Safon Iechyd Corfforaethol i'r ysgol.

Mae'r aseswyr yn cydnabod y newidiadau a ddigwyddodd dros y pum mlynedd diwethaf, rôl y Pennaeth wrth arwain y newid, a'r penderfyniad i roi pobl yn gyntaf drwy gynnwys myfyrwyr a staff nid yn unig o fewn cwmpas polisïau ond hefyd mewn amrywiaeth eang o weithgareddau a mentrau i gefnogi iechyd a lles.







### Ymweld â Maes Brwydr y Somme yn Ffrainc.

Mae 45 o fyfyrwyr a staff yn ymweld â maes brwydr y Somme ym mis Mai 2019. Elwodd y grwp ar y cyfle i ymweld â'r ffosydd yng nghoed Thiepval Cymerodd a myfyrio ar y Sunken Road: roedd y ddau safle yn allweddol yn y frwydr a ddechreuodd ar Orffennaf 1af 1916. Cynhelir gwasanaeth goffa yng nghoedwig Mametz, lle bu'r ffiwsilwyr Cymreig yn ymladd fel rhan o'r frwydr.

# Mehefin

## Gweithgareddau a Digwyddiadau




### Ffarwel a phob lwc i'n Myfyrwyr Blwyddyn 11

Ym mis Mehefin rydym yn ffarwelio ac yn dymuno pob lwc i'n myfyrwyr Blwyddyn 11! Gan eu hatgoffa mai diwedd un bennod mewn bywyd yw dechrau un arall … mae'r gorau eto i ddod!

# Gorffennaf

## Gweithgareddau a Digwyddiadau

YSGOL ABERCONWY

### Diwrnod Chwaraeon

Yn ystod wythnos ola'r tymor cynhaliwn ein diwrnod chwaraeon ysgol gyfan flynyddol! Mae'r myfyrwyr yn cael y cyfle i gymryd rhan mewn amrywiaeth o weithgareddau chwaraeon drwy'r dydd, gyda'r cyfle i ennill pwyntiau gwerthfawr ar gyfer tîm eu ty!





### Mae si o gwmpas yr Ysgol…

Mae'r myfyrwyr yn mwynhau ymweliad gan gan Feistr ar Gadw Gwenyn i ddysgu am Wenyn, eu pwrpas yn y cwch gwenyn a'r rolau pwysig maen nhw'n eu cyflawni. Yn ogystal, maen nhw'n cyfarfod â gwirfoddolwyr o Soroptimist Rhyngwladol, sy'n siarad am wahanol gynhyrchion, a gynhyrchwyd gyda chymorth gan ein ffrindiau adeiniog.



### Rydym yn codi dros £2177 i Mind Aberconwy!

Rydym allan ar strydoedd Conwy unwaith eto i gwblhau taith gerdded noddedig. Rydym yn codi cyfanswm o £2177.04. Bydd hwn yn mynd tuag at sefydlu canolfan Mind Aberconwy i fyfyrwyr a staff, yma yn yr ysgol.





YSGOL ABERCONWY

# Gorffennaf

## Gweithgareddau a Digwyddiadau


### Wythnos Bontio Blwyddyn 6

Rydym yn croesawu disgyblion Blwyddyn 6 o'n hysgolion cynradd. Maen nhw'n treulio wythnos yn dod I adnabod yr ysgol, gan gyfarfod â'r athrawon a chymryd rhan mewn amrywiaeth o wersi difyr a diddorol.
















### Arddangosfa Dylunio a Chelf

Rydym yn agor ein drysau I rieni ar gyfer ein Arddangosfa Dylunio a Chelf. Yn ystod y digwyddiad rydym yn arddangos y gwaith gwych a gynhyrchwyd gan ein myfyrwyr fel rhan o'u cymwysterau.




### Dathliadau Dawns y Chweched Dosbarth

Rydym yn dathlu gyda'n myfyrwyr Blwyddyn 13 yn eu Dawns Chweched Dosbarth. Rydym yn hynod falch o'u cyflawniadau yn ystod eu cyfnod yn Ysgol Aberconwy a dymunwn y gorau iddynt at y dyfodol sydd o'u blaenau.

# Cynrychioli Cymru...

**Rydym yn falch iawn o gyflawniadau ein myfyrwyr, sydd wedi cymryd rhan mewn amrywiaeth enfawr o weithgareddau, o fewn a'r tu allan i'r ysgol. Hoffem eu llongyfarch am bopeth y maen nhw wedi'i gyflawni. Dyma ddetholiad o rai o oreuon goreuon Cymru dros y blynyddoedd diwethaf!**





Llongyfarchiadau i Amelie a ddaeth yn drydydd yn y gystadleuaeth llofnaid wrth gynrychioli carfan gymnasteg Merched Hyn Ardal Gogledd Cymru. Bu'n cystadlu hefyd mewn cystadleuaeth gymnasteg ym Malta yn erbyn myfyrwyr o bob cwr o'r byd!



Da iawn i Lewis, Sam, Jaydon, Tom, Jack a Sophie, a wnaeth yn wych yng Nghystadleuaeth Codi Pwysau Cymru yn ddiweddar, gyda phawb yn cerdded i ffwrdd gyda medal!



Llongyfarchiadau i Sophie ac Erin a gafodd eu dewis ar gyfer Gwersyll Merched dan 15 Genedlaethol Ym ddiriedolaeth FAW.



Llongyfarchiadau i Ella a enillodd Felt 'Arweinwyr Ifanc Fforwyr Sgowtiaid' (ESYLs) am ei chyfraniad i'r sgowtiaid ac am lwyddo i gwblhau'r Cynllun 'ESYLs'. Nid yn unig y mae wedi cyflawni'r gamp wych hon, ond mae hi hefyd yn un o ddim ond tri yng Nghymru i dderbyn y felt hon!

Bu naw myfyriwr o Ysgol Aberconwy yn cystadlu ym Mhencampwriaethau Traws Gwlad Eryri. Llwyddodd tri i gyrraedd y rownd genedlaethol. Daeth Cai yn 2il, Caitlin yn 5ed a Ceri yn 8fed yn eu categoriau. Cyrhaeddodd Sam (Bl7) y rhestr wrth gefn. Da iawn bawb!

YSGOL ABERCONWY

# Cynrychioli Cymru...

Dewiswyd Mia ar gyfer Tîm Pêl-droed Merched Dan 15 Oed Cymru ac enillodd ei Chap cyntaf i Gymru!

Llongyfarchiadau i Ben & Sam a orffennodd yn 1af ac yn 2il yn ôl eu trefn yng Nghystadlaethau Codi Pwysau Ieuenctid Prydain!




Da iawn i:
Martha – Pêl-rwyd Eryri
Shana – Criced Cymru
Lucian – Hoci Gogledd Cymru
Llongyfarchiadau ar gael eich dewis!








Llongyfarchiadau i Geneva a fu'n cystadlu ym Mhencampwriaethau Carate SSU Cymru ac a gerddodd i ffwrdd gydag Aur yn y Categori Belt Ddu!

Cynrychiolodd Sam Gymru mewn cystadleuaeth codi pwysau a gynhaliwyd yn Awstria, lle bu'n cystadlu yn erbyn codwyr o bob cwr o Ewrop!




Llongyfarchiadau i Jacob ar ennill arian yng Ngystadleuaeth Crefftau Ymladd Unedig y Byd!!







# YSGOL ABERCONWY







